

Bwyd gyda Ffrindiau: Dod â phobl ynghyd gyda grym bwyd da

Mae cymuned yn cael ei diffinio'n fras fel grŵp o bobl sy'n byw mewn ardal. Efallai eu bod yn gwybod sut mae eu cymdogion yn edrych, ond mae'n debyg eu bod yn cerdded heibio iddynt bob dydd heb wybod eu henw. Mae Cyngorwyr ar draws Gorseinon a Phenyrheol eisiau newid hyn, gan ddod â'u cymuned ynghyd gyda grym bwyd da.

Ym mis Chwefror eleni cynhaliwyd y cyfarfod pwyllgor cyntaf yng nghapel St. Catherine yng Ngorseinon. Cytunodd y trefnwyr mai nod Bwyd gyda Ffrindiau fyddai dod â phobl o bob oed, cefndir a galluoedd ynghyd am bryd, fel bod pobl na fyddai fel arall erioed wedi cwrdd â'i gilydd, yn cael cyfle i ddod i adnabod ei gilydd. Croesawodd y pryd cymunedol cyntaf, a gynhaliwyd ym mis Mawrth, dros 100 o bobl a darparwyd pryd cartref am ddim o Gawl a bara, a ddilynwyd gyda chacennau cri a Bara Brith.

Mae Bwyd gyda Ffrindiau wedi mynd o nerth i nerth ers hynny ac fe'i cynhelir nawr bob mis yng nghapel St. Catherine. Mae pob person sy'n mynychu yn derbyn pryd dau gwrs am ddim a thocyn raffl am ddim. Mae gwobrau wedi cynnwys cerdyn rhodd £25 Asda a bocs llysiau a roddwyd gan Sheperd's, siop leol ffrwythau a llysiau.

Roedd y trefnwyr wedi gwirioni i ddarganfod fod Margaret a Julie, dwy ddieithr i'w gilydd, wedi gadael prydau mis Mawrth fel ffrindiau ac ers hynny wedi cyfarfod ar gyfer te yn Framptons a siopa yng Nghaerfyrddin a Fferm Cwmcerrig. Mae Julie wedi bod yn cadw sedd i Margaret ers hynny.

“Dyma beth yw Bwyd gyda Ffrindiau” dywedodd y Cyngorydd Kelly Roberts. “Dieithriaid yn y gymuned yn dod ynghyd, yn rhannu pryd ac yn gadael fel ffrindiau”.

Mae llwyddiant Bwyd gyda Ffrindiau yn dibynnu ar ymroddiad ac ymrwymiad ei drefnwyr. Y Cyngorydd Kelly Roberts yw Ysgrifennydd a Thrysorydd Bwyd gyda Ffrindiau ac mae hi yn trefnu hysbysebu'r pryd. Mae'r Cyngorwyr Andrew Stevens a'r Parchedig Ddr Adrian Morgan yn chwilio am roddion bwyd a raffl gan fusnesau lleol ac mae'r Cyngorydd Jan Curtice yn coginio'r prif gwrs tra bod Kathryn Lewis, yn ogystal ag aelodau eraill o'r eglwys,

yn gwneud y pwddin. Mae gwirfoddolwyr ar y diwrnod yn cynnwys Cynghorwyr Tref Gorseinion, aelodau Capel St. Catherine a hyrwyddwr cymuned ASDA, Jayne Davies.

Mae Bwyd gyda Ffrindiau yn syniad syml! Nid ei fwriad yw gwneud arian ac nid oes ganddo agenda cudd. Yn syml, mae'n bryd cymunedol am ddim gyda'r nod o greu cyfle i hen gyfeillgarwch gryfhau a chyfeillgarwch newydd gael ei greu.